Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/3043/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
(PPIA) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Hydref 2018

Annwyl Lynne,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i ddau gam gweithredu yn sgil cyfarfod o'r Pwyllgor ar 20 Medi - sef eitem 4 yr agenda, Effaith Brexit ar Addysg Uwch a Phellach - sesiwn dystiolaeth 4.

1. **Yr asesiadau risg a gynhaliwyd ar gyfer Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB) mewn perthynas â Brexit.**

Fel sydd wedi'i nodi yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor, mae'r Gweithgor Brexit AU, a sefydlais ym mis Medi 2016, wedi trafod y goblygiadau ar gyfer addysg uwch mewn perthynas ag ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Roedd dadansoddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn sail i'r trafodaethau hynny.

Fel rhan o'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt â'r sector, rydym wedi nodi prif elfennau Brexit a fydd yn cael effaith ar incwm a gweithgareddau AU. Yn fras, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- gallu cael cyllid gan yr UE a manteisio ar fframweithiau i gefnogi symudedd rhyngwladol a chydweithredu ar waith ymchwil yn rhyngwladol;
- gallu manteisio ar fuddsoddiad cronfeydd strwythurol yr UE, y mae seilwaith ymchwil wedi elwa arno.
- pryderon ynglŷn â pholisi mewnfudo Llywodraeth y DU yn y dyfodol neu naratif sy'n annog staff a myfyrwyr yr UE i beidio â dod i'r DU.

Mae'r ffordd y mae gwahanol sefydliadau yn dod i gysylltiad â'r effeithiau hynny yn amrywio ar draws y sector. Ac mae hynny'n dibynnu ar ffactorau fel lefel eu cyfraniad mewn rhaglenni a ariennir gan yr UE, fel Horizon 2020, a nifer y myfyrwyr o'r UE sy'n astudio ym mhob sefydliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Sefydliadau awtonomaidd yw sefydliadau addysg uwch, a bydd Is-Ganghellwyr wedi ymgymryd ag ymarferion asesu risg ar gyfer eu sefydliadau a'u hamgylchiadau eu hunain. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cael yr wybodaeth honno gan sefydliadau AU. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at y dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd ei darparu i'r Pwyllgor gan HEFCW ar yr effaith bosibl ar y sector, sef llythyr cyfeirnod IB19. Mae'r llythyr yn cadarnhau bod darparwyr unigol yn ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran camau i'w lliniaru, y mae'n bosibl y bydd angen eu cymryd i leihau costau wrth i effaith benodol Brexit ddod yn fwy amlwg dros y misoedd nesaf. Ni fydd y darlun llawn yn amlwg tan ar ôl inni gael y manylion llawn am unrhyw gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gyda HEFCW a'n sefydliadau i ddeall ac asesu'r goblygiadau wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy clir.

Mewn perthynas â'r risgiau ar gyfer y sector AB yn sgil ymadael â'r UE, rydym wedi ystyried prif feysydd yr effaith. Yn wahanol i AU, prin iawn yw nifer y myfyrwyr AB sy'n dod o wledydd yr UE, felly mae effaith y posibilrwydd o'u colli yn un fach. Yr hyn sy'n fwy pwysig yw effaith colli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) ar ddiwedd rhaglen bresennol y Fframwaith Ariannol Amlflwydd. Bydd hynny'n effeithio ar ddau o feysydd y ddarpariaeth. Mae colegau'n cynnal prosiectau ESIF eu hunain, sy'n ennill incwm blynyddol o rywbeth rhwng £4 miliwn a £10 miliwn y flwyddyn. Defnyddir yr incwm hwnnw i gynyddu cyllid y llywodraeth. Bydd y gweithgareddau hynny yn debygol o ddod i ben os na fydd ESIF (neu gyllid cyfwerth) ar gael i Gymru. Yn yr un modd, mae ESIF yn cyfrannu tua £15 miliwn y flwyddyn at y gyllideb prentisiaethau. Heb ffrwd gyllido debyg, byddai nifer o ddarpariaethau'n dod i ben. I roi hynny yn ei gyd-destun, mae £15 miliwn yn cyfateb i tua 2,000 o brentisiaid lefel tri yn dechrau ar eu prentisiaethau mewn blwyddyn benodol. O ystyried bod cyllid ESIF wedi'i seilio ar y cydsyniad o ychwanegu gwerth, tra bydd colli incwm yn arwain at lai o weithgareddau, bydd yr effaith ar gyllid colegau yn un fach, gan na fydd y costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a ariennir gan ESIF yn cael eu hysgwyddo; er efallai y bydd angen lleihau nifer y staff.

2. **Dadansoddiad o'r ffordd y mae'r £6.4 miliwn ychwanegol o gyllid a roddwyd i HEFCW wedi'i ddyrannu neu ei wario yn ymarferol.**

Cafodd y cyllid hwn ei ddyrannu i alluogi HEFCW i ymdrin ag unhryw oblygiadau yn y cyfnod byr a allai godi yn sgil newidiadau demograffig a goblygiadau cychwynnol cyfnod pontio'r UE. Cafodd ei ddyrannu fel rhan o gymorth grant cyffredinol HEFCW. Y Cyngor sydd yn penderfynu sut y mae'n dosbarthu cyllid a ddyrannwyd iddo gan Lywodraeth Cymru, er bod angen i'r hyn a benderfynir fod yn rhan o'r egwyddorion a amlinellir gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, gan fod y dyraniad wedi'i neilltuo ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 yn y lle cyntaf, penderfynodd HEFCW ddefnyddio'r cyllid i leihau lefel addasiad y cyllid a oedd yn berthnasol i ddyraniadau HEFCW i sefydliadau ym mlwyddyn academaidd 2017-18, gan sicrhau eu bod yn gallu elwa o'r cyllid ychwanegol yn syth.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education